

Gofynnwch am/Ask for
Ein Cyf/Our Ref
Eich Cyf/Your Ref
Ffôn/Tel
Rhif Uniongyrchol/Direct
DX
E-bost/E-mail

**Deborah Weston
DW/BSE**

01633 210631

01633 210631

school.reorg@newport.gov.uk

**Gwasanaeth Addysg
Education Service**



Canolfan Ddinesig/Civic Centre
Casnewydd/Newport
De Cymru/South Wales
NP20 4UR

24 Mehefin 2021

Annwyl Randdeiliad

Cynnig i gynyddu capasiti Ysgol Basaleg o fis Medi 2023.

Mae'r ymgynghoriad swyddogol llawn bellach wedi'i gwblhau gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gynnig i ymestyn a chynyddu capasiti Ysgol Basaleg o fis Medi 2023.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 1 Hydref 2020 a 12 Tachwedd 2020. Cyhoeddwyd Hysbysiad Statudol wedyn ar 3 Mawrth 2021 a daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben 1 Ebrill 2021. Derbyniwyd dau wrthwynebiad ffurfiol, a chodwyd pryderon gan ddau arall, er na chafodd y rhain eu cyflwyno'n benodol fel gwrthwynebiadau. Mae'r gwrthwynebiadau a'r pryderon a godwyd wedi'u crynhoi yn yr Adroddiad Gwrthwynebu.

Mae'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd a'r pryderon a godwyd, fel y nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebu, wedi cael eu hystyried yn llawn gan Gabinet y Cyngor sy'n gweithredu fel y Panel Penderfynu Lleol. Roedd Cabinet y Cyngor yn fodlon â'r ymatebion i'r gwrthwynebiadau a daeth i'r casgliad bod manteision addysgol gwell i fwrw ymlaen â'r ehangu gan gynnwys:

- Cynnal ansawdd uchel a safonau mewn addysg yn yr ysgol
- Disodli adeiladau o ansawdd gwael a gwella hygyrchedd
- Diwallu'r angen am leoedd i ddisgyblion yn yr ardal leol
- Gwella cyfleusterau Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Economiâu refeniw drwy ehangu'r ddarpariaeth bresennol yn hytrach nag ychwanegu ysgol arall at yr ystâd addysg neu fynd i gostau trafnidiaeth ychwanegol

Mae Cabinet y Cyngor wedi gwneud y penderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â'r cynnig.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau y caiff y cynnig ei weithredu yn unol â'r amlinelliad a nodwyd yn yr ymgynghoriad a'r hysbysiad statudol o fis Medi 2023.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor yn:

www.newport.gov.uk/schoolreorganisation

Yn gywir

**Sarah Morgan
Prif Swyddog Addysg**